

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion ail gyfarfod Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd am 1.00yp ar ddydd Mercher 1, Chwefror, 2012

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Siân Wyn Siencyn, Gwerfyl Roberts, Dr Dylan Foster Evans, Elin Haf Gruffydd Jones, yr Athro Gwynedd Parry, yr Athro Densil Morgan, Dr Eleri Pryce, Delyth Murphy, yr Athro Deri Tomos, yr Athro Richard Wyn Jones, Dr Siwan Davies

Aelodau (Canghennau): Gina Morgan, Dr Lisa Lewis, Phil Ainsworth, Dr Anwen Jones, Julie Brake, Dr Gwenno Ffrancon, Gwilym Dyfri Jones, Dr Geraint Cunnick, Dr Enlli Thomas, Dr Gwilym Roberts,

Aelodau (Myfyrwyr): Adam Jones, Manon George

Aelodau (Colegau Cymru): Neb yn bresennol

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips, Dr Gwennan Schiavone, Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Chyflwyniad	1.1. Croesawyd yr aelodau i'r ail gyfarfod gan y Deon 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Caerdydd am letya'r cyfarfod ac yn benodol i Eiliw Iwan am y trefniadau ymarferol.		
2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan y Dr Carwyn Jones, Gwennan Owain, Peter Rees, Daniel Taylor ac Alys Rosser 2.2. Doedd dim datganiadau o ddiddordeb pellach i'r rhai a nodwyd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd.		
3. Penodi Is-gadeirydd	3.1. Nodwyd nad oedd enwebiad wedi dod i law. Nododd y	Cyflwyno Enwebiad i'r	23/5/12

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Deon y byddai'r enwebiadau yn parhau yn agored tan ddiwedd y cyfarfod. Pe na bai enw yw cael ei gyflwyno cyn diwedd y cyfarfod byddai'r Deon yn cyflwyno enwebiad am Ddirprwy Gadeirydd i'r cyfarfod nesaf.	Cyfarfod Nesaf (y Deon)	
4. Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar y 23ain o Dachwedd, 2011	<p>4.1. Nodwyd fod Dr Enlli Thomas yn bresennol a nodwyd y dylid ychwanegu pwynt 6.6 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau dilynol: 'Nodwyd pwysigrwydd sicrhau data cywir a chyson gan y sefydliadau'.</p> <p>4.2. Gyda'r newidiadau hynny derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>		
5. Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<p>5.1. Cyflwynodd y Deon ac Ysgrifennydd y Bwrdd Academaidd drafft y Cynllun Academaidd Cenedlaethol</p> <p>5.2. Trafodwyd gwahanol elfennau'r cynllun yn fanwl a nodwyd amrywiol ddarnau o'r cynllun oedd angen sylw pellach er mwyn eu datblygu ymhellach.</p> <p>5.3. Yn gyffredinol ac wrth gyflwyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd fod angen gosod uchelgais y Coleg yn fwy eglur yn y cyflwyniad a'r rhagymadrodd. Rhaid proffilio athroniaeth y Coleg Cenedlaethol a nodi'n glir yr uchelgais dros ddatblygiad sylweddol. • Nodwyd fod angen gosod yn glir y dyletswyddau statudol sy'n perthyn i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru; a'u cyfrifoldeb i weithredu yn sgil hynny. • Nodwyd ymhellach fod angen i'r Cynllun fod yn glir parthed mecanwaith monitro addas a'r goblygiadau i sefydliadau o beidio â chyflawni eu hymrwymadau. • Nodwyd fod angen cryfhau ag egluro yn fwy amlwg dyheadau'r Coleg parthed astudiaethau ôl-raddedig • Nodwyd fod angen ystyried sut i gefnogi a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymysg myfyrwyr ail iaith, a myfyrwyr llai sicr eu sgiliau Cymraeg. • Nodwyd pwysigrwydd sicrhau cefnogaeth a mentora 		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>addas i staff cyfrwng Cymraeg gyrfa gynnar yn enwedig mewn adrannau / ysgolion heb fawr o draddodiad o ddarparu yn Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd fod angen ystyriaeth briodol i Ddysgu yn y Gweithle, Dysgu Rhan Amser a datblygiad graddau sylfaen. Cytunodd Delyth Murphy i gynnig geiriad addas i'w cynnwys yn y Cynllun Academaidd ar y materion hyn. <p>5.4 Wrth drafod Cynaliadwyedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriwyd natur union gymalau megis '4 aelod o staff' ac ym mhob blwyddyn, a chytunwyd i geisio egluro'r cymalau yma yn fwy eglur • Tanlinellwyd pwysigrwydd y rhyngberthynas rhwng dysgu ac ymchwil • Trafodwyd priodoldeb cynnwys darpariaeth 'ymwybyddiaeth iaith' fel rhan o'r Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd y dylai darpariaeth o'r fath fod yn rhan o'r Cynllun Academaidd. <p>5.5 Wrth drafod Dysgu Blaengar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd pwysigrwydd meddwl yn eangfrydig am ddatblygiad addysg uwch yn Gymraeg ac nad oedd diben i gynnig copi union o'r addysg a gynigir yn Saesneg • Nodwyd pwysigrwydd y Porth wrth hybu a hyrwyddo dysgu blaengar, a thrafodwyd y posibilid o greu adnoddau / adrannau disgyblaethol oddi fewn i'r Porth fyddai'n sicrhau ystod eang o adnoddau traws-ddisgyblaethol i sylw myfyrwyr. <p>5.6 Wrth drafod Cyflogadwyedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penderfynwyd y dylai'r thema ystyried cyfraniad graddedigion yn fwy eang na'r byd gwaith, ac felly cyflwyno ffocws ar raddedigion fel dinasyddion Cymreig cyflawn. 	<p>Delyth Murphy i ddanfon geiriad addas i'r Cynllun Academaidd</p>	<p>8 Chwefror, 2012</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd fod y Coleg wrthi'n datblygu Tystysgrif Sgiliau yn Gymraeg, a chytunwyd y byddai adroddiad lawn yn cael ei ddarparu i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd. • Nodwyd fod angen cydnabod yn eglur rôl y cyrff hynny sy'n cynllunio'r gweithlu yn arbennig ym meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. <p>5.7 Wrth drafod Meithrin Galw gan Fyfywyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodwyd fod angen gofal wrth osod y trothwy ar gyfer Prif Ysgoloriaethau'r Coleg, ac y dylid ystyried priodoldeb y trothwy hynny dros amser. • Nodwyd pwysigrwydd cydweithio gyda sefydliadau unigol ac UCAS er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg yn effeithiol. Nodwyd ymhellach fod hi'n gyfrifoldeb ar y cyrff yma i sicrhau fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael sylw priodol. <p>5.8 Wrth drafod Cynllunio Disgyblaethol a Dynodi Lleoliadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd dilyniant rhwng darpariaeth israddedig, darpariaeth meistr a darpariaeth doethuriaethol a'r angen i sicrhau llwybrau dilyniant effeithiol wrth gynllunio yn bynciaol. • Trafodwyd diffiniad staff parhaol • Trafodwyd dosraniad y pynciau a chytunodd nifer o aelodau'r bwrdd i E-bostio awgrymiadau addas i'r Ysgrifennydd o fewn yr wythnos <p>5.9 Cytunodd y Deon yn dilyn y drafodaeth i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed, ac i lunio Cynllun diwygiedig gyda Swyddogion y Coleg er mwyn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ar y 29ain o Chwefror, 2012</p> <p>5.10 Nodwyd y byddai'r Cynllun wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr yn cael ei gyflwyno i'r Coleg a'i</p>	<p>Bwrdd Prosiect i gyflwyno adroddiad ar y tystysgrif sgiliau iaith arfaethedig</p> <p>Aelodau'r Bwrdd i gynnig dosraniad addas a theitlau addas i bynciau</p> <p>Cynllun Academaidd Diwygiedig i Fwrdd y Cyfarwyddwyr</p>	<p>Mai 2012</p> <p>8 Chwefror 2012</p> <p>Chwefror, 2012</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	rhanddeiliaid ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mawrth / Ebrill gan ganiatáu i Ganghennau, Sefydliadau a Phaneli Pwnc i gyflwyno sylwadau ym mis Mai. Byddai'r fersiwn drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd tymor yr Haf o'r Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Cyfarwyddwyr.		
6. Paneli Pwnc	<p>6.1. Nodwyd y byddai panel penodol yn cael ei sefydlu i ymdrin â materion Dysgu yn y Gweithle a Dysgu Rhan Amser.</p> <p>6.2. Nodwyd y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'w trafod i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd parthed Paneli Pwnc.</p>	Papur i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd	Mai 2012
7. Materion o'r Myfyrwyr - UCAS	<p>7.1. Trafodwyd methiant UCAS i ddarparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg ar gais un o gynrychiolwyr myfyrwyr y Bwrdd Academaidd.</p> <p>7.2. Nodwyd anfodlonrwydd y Bwrdd gyda gweithgareddau UCAS ar hyn o bryd, parthed agweddau dwyieithog o'r wefan a'r broses ymgeisio a'r sylw a roddir i addysg uwch Cyfrwng Cymraeg.</p> <p>7.3. Cytunodd y swyddogion i ohebu gyda Phrif Weithredwr UCAS yn y man cyntaf yn gofyn am gyfarfod i drafod y pryderon.</p>	Gohebu gydag UCAS	Diwedd Mawrth, 2012
8. Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod Nesaf	9.1 Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 23ain o Fai yn Aberystwyth.		